

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Fawrth 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, Ieuan Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Ffuon Williams, Maria Roberts, Guto Jones, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.
Ymddiheuriadau - John D Jones

Datgan diddordeb. Datganwyd diddordeb yn y canlynol, Maria Roberts yn cofnod [2 a]Trystan Humphreys [2 b] Einion Edwards [2.3] a gadawsom y cyfarfod tra bu'r materion o dan sylw.
Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 31ain Ionawr 2017.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Diffibriliwr/Glasfryn

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan y cwmni ar gyfer y trefniadau.

[1.4] Llwybr Maes Aled

Nodwyd yn siomedig nad oedd y llwybr wedi ei lanhau, y clerc i atgoffa Haydn Roberts ynglŷn â'r mater

[1.5] Llwybr gyferbyn a'r Ysgol i Ffordd Cefn Brith

Nodwyd ateb gan Darren Millar AC y byddai'n cysylltu'n mhellach ynglŷn a'r mater

[1.6] Baner Bro Hiraethog

Deallwyd nad oedd pwyllgor y ganolfan wedi cwrdd, penderfynwyd trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

[1.7] Strategaeth Datblygu Hiraethog

Cafwyd amlinelliad o gyfarfod y strategaeth a gynhaliwyd ym Mro Cernwy gan Einion Edwards, deallwyd bod angen i gymunedau ystyried a chynnig sylwadau. Cytunodd pawb i roi sylw i'r mater ar gyfer y cyfarfod nesaf.

[1.8] Brigâd Dan, Cerrig-y-Drudion

Nodwyd atebiad Prif Swyddog y Frigâd Dan i bryderon y Cyngor bod diffyg hyfforddiant yn lleol, yn creu anawsterau ynglun ac ymateb i alwadau brys.

[1.9] Pont-yr Hendre /Pentrellyncymer

Dywedodd y clerc i'r Cyngor Sir gadarnhau fod trefniadau mewn llaw i atgyweirio canllaw'r bont.

Y brif Agenda

[2] Aseiad Risg

[a] Ystafell Blwyf – Nodwyd bod cynhaliath flynyddol wedi ei gwblhau i'r ddau ddiforddwr tan.

[b] Bod archwiliad trydanol ei angen yn ystod 2018.

[c] Mynwentydd - Nid oedd angen sylw i unrhyw beth yn y mynwentydd oddigerth fod y tir yn ddifrifol o wlyb. Cadarnhaodd y clerc bod Aeron Humphreys wedi cytuno i wneud gwaith draenio i geisio gwella'r sefyllfa.

[2.1] Rheolaeth Mewnol

Penderfynwyd parhau ymlaen gyda'r trefniadau presennol fel a ganlyn;

[a] Pob taliad sied a derbyniadau i gael ei gofnodi

[b] Mantolen cyfrifon blynyddol i gael ei dosbarthu i bob aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

[c] Pob siec i gael ei lofnodi gan ddau aelod a'r clerc.

[d] Penderfynwyd mabwysiadu'r Rheolau Ariannol a dderbyniwyd gan Unllais Cymru'

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Trawsnewid Stiwdio Therapi Harddwch yn llety gosod gwyliau. Glaslyn, King Street, Cerrig-y-Drudion

[b] Adnewyddu a gwneud addasiadau gan gynnwys manau parcio ayb. 4/5 Green Bank, Cerrig-y-Drudion

[c] Codi Adeilad Amaethyddol, Tir wrth ymyl Turbyn Gwynt LL21 OSE.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri chais uchod.

[2.3] Cymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru/Cais am Nawdd

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan y gymdeithas yn datgan bod Gruffudd Edwards Pentre' Draw, wedi ei ddewis i dîm Pysgota Plu Ifanc Cenedlaethol Cymru ar gyfer Pencampwriaeth y pedair gwlad yn Llyn Draycote Lloegr, ar Awst y 1af 2018.

Penderfynwyd gwneud cyfraniad o £50.00

[2.4] Tywydd Garw

Gan nodi gwasanaeth canmoladwy gan y Cyngor Sir i gadw'r ffyrdd ar agor yn ystod y rhew ar eira'n ddiweddar. Y clerc i anfon gair o ddiolch.

[2.4] Bara Caws /Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu £25.00 tuag at y cwmni

Cadeirydd_____